GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Hysbysiad o newidiadau pwysig o fis Ebrill 2006

Fis Ebrill 2006 bydd newidiadau pwysig i Reolau'r Drefn Sifil yn dod i rym. Mae'r hysbysiad hwn yn egluro beth yw'r newidiadau a sut fydden nhw'n effeithio arnoch chi.

C. Beth fydd y newidiadau?

A.

- Bydd rheolau newydd a chyfarwyddiadau ymarfer yn rhoi manylion am y wybodaeth y dylid ei chyflwyno i'r llys i gychwyn hawliad
- Bydd yn orfodol rhoi côd post ar gyfer unrhyw gyfeiriad
- Gofynnir i ddiffynyddion roi eu dyddiad geni wrth ymateb i hawliad
- Gofynnir i hawlwyr roi dyddiad geni'r diffynnydd (os yw'n hysbys) i'r llys wrth ofyn am ddyfarniad

C. Pa wybodaeth fydd angen ei roi i'r llys i gychwyn hawliad?

A. Bydd yn rhaid i chi roi enw llawn pob parti os yw'n hysbys. Mae enw llawn yn golygu:

- Mewn achos unigolyn, ei enw llawn heb ei gwtogi, yn cynnwys ei deitl hysbys (h.y. Mr, Mrs, Dr, ayb)
- Mewn achos unigolyn sy'n defnyddio enw arall ar gyfer masnachu, ei enw llawn heb ei gwtogi a'i deitl hysbys a'i enw llawn ar gyfer masnachu e.e. Mr John Smith M/fel JS Autos
- Mewn achos partneriaeth (ar wahân i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig) enw llawn y busnes gyda'r ôl-ddodiad 'busnes' yn dilyn
- Mewn achos cwmni cofrestredig neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, enw llawn y cwmni neu bartneriaeth gyda'r ôl-ddodiad addas yn dilyn e.e. Cyf, Ccc, PAC
- Mewn achos unrhyw gwmni neu gorfforaeth arall, ei enw llawn ac unrhyw ôl-ddodiad fel bo'n addas

(Rheolau'r Drefn Sifil Rhan 16 Cyfarwyddyd Ymarfer, paragraff 2.6)

C. Pam mae angen y wybodaeth hon ar y llys?

A. Mae'r rheolau hyn yn egluro'r gyfraith bresennol ar sut rhaid disgrifio'r partïon i'r hawliad. Gall cyflwyno gwybodaeth o ansawdd gwell i'r llys ar y dechrau gynyddu eich siawns o adennill y ddyled yn llwyddiannus. Bydd hefyd yn sicrhau, os bydd y dyfarniad yn cael ei gofrestru ar Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon, y gellir adnabod y diffinydd yn gywir.

C. Beth os nad wy'n gwybod am holl fanylion y diffynnydd?

A. Dylech ddarganfod cymaint o wybodaeth â phosib am y person rydych am ei siwio cyn dod i'r llys. Ni all y llys ddelio ag unrhyw hawliadau diffygiol a gyflwynir iddynt, ond gallent dderbyn hawliadau yn erbyn unigolion os na allwch roi eu henw llawn heb ei gwtogi cyn belled â'ch bod yn rhoi cymaint o wybodaeth ag y gallwch am y person.

C. Ble gaf i ddod o hyd i wybodaeth am y diffynnydd?

A. Os yw'r diffynnydd yn unigolyn, gallwch ddod o hyd i'w fanylion ar y Cofrestr Etholiadol. Mae hon ar gael i'w harchwilio drwy eich cyngor lleol. Os yw'r diffynnydd yn fusnes, gallwch gael mwy o wybodaeth amdano ar bennawd ei bapur ysgrifennu, neu unrhyw sieciau neu anfonebau a anfonodd atoch.

Dylai cwmnïau cofrestredig gael eu cofrestru yn Tŷ'r Cwmnïau. Os na allwch ddod o hyd i enw llawn y cwmni fel arall, fe allwch chwilio Cofrestr Cwmnïau. Cewch fwy o wybodaeth am hyn ar www.companieshouse.gov.uk.

Os oes gennych unrhyw amheuon gall staff y llys eich helpu. **Ond cofiwch, ni allant roi cyngor cyfreithiol.**

C. Pam mae angen côd post ar y llys ar gyfer unrhyw gyfeiriad a roddir i'r llys?
A. Mae'r côd post yn rhan annatod o'r cyfeiriad. Bydd sicrhau fod pob cyfeiriad yn cynnwys côd post yn helpu'r llys sicrhau cywirdeb dyfarniadau cofrestredig, a sicrhau fod yr hawliad yn cyrraedd y diffynnydd. Unwaith eto po fwyaf y wybodaeth y gallwch ei roi i'r llys gwell fydd eich siawns o adennill.

C. Beth os nad wy'n gwybod côd post y Diffynnydd?
A. Mae côd post unrhyw gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig ar gael am ddim gan y Post Brenhinol yn eu Canllawiau Rheoli Cyfeiriad neu ar eu gwefan www.royalmail.com. Os nad oes côd post i'r cyfeiriad bydd rhaid i chi ofyn i'r barnwr am ei ganiatâd i gyflwyno eich hawliad heb y wybodaeth hon pan fyddwch yn rhoi eich hawliad gerbron y llys, gan roi eich rhesymau. Ni fydd tâl ychwanegol am hyn, ond os byddwch yn hepgor côd post heb ofyn caniatâd y barnwr ni fydd y llys yn caniatáu cyflwyno eich hawliad i'r diffynnydd nes fyddwch wedi cyflenwi'r côd post sydd ar goll neu i farnwr ganiatáu'r gwasanaeth hebddo*. (Rheol 6.5(2), Rhan 16 CY, paragraff 2.4 a Rhan 23 CY, paragraff 2.1(4)).*

C. Pam mae'r llysoedd yn casglu dyddiad geni'r diffynnydd?
A. Bydd y dyddiad geni'n cael ei ychwanegu, ynghyd ag enw a chyfeiriad y diffynnydd at Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon os yw'r dyfarniad yn cael ei gofrestru. Bydd hyn yn gymorth i adnabod dyledwr yn well, yn arbennig os nad yw'r llys yn gwybod ei enw llawn ef/hi a bydd yn osgoi caniatáu credyd anaddas i'r dyledwr lle defnyddir y data ar gyfer cyfeirnod credyd. Bydd hefyd yn cynorthwyo gorfodaeth.

C. Sut fydd y diffynnydd yn hysbysu'r llys o'i ddyddiad geni?
A. Mae'n ofynnol i'r diffynnydd gyflwyno'r wybodaeth hyn wrth ymateb i'r hawliad, hyd yn oed os yw'n amddiffyn yr hawliad. (*Rhan 16 Cyfarwyddyd Ymarfer, paragraff 10.7)*

C. Beth os yw'r diffynnydd yn methu â chyflwyno'i ddyddiad geni i'r llys?
A. Mae'n ofynnol i ddyddiad geni'r diffynnydd gael ei gyflwyno wrth ymateb i hawliad ond ni fydd y llys yn medru gwrthod prosesu ymateb am nad yw'r diffynnydd wedi cyflwyno dyddiad geni yn unig. Os nad yw'r Diffynnydd yn ymateb i'r hawliad o gwbl neu yn ymateb ond ddim yn rhoi ei d(d)yddiad geni, gall hawlwyr gyflwyno dyddiad geni'r diffynnydd wrth wneud cais am ddyfarniad os yw wedi ei gofnodi ganddynt. *(Rheol 12.4(2) a Rhan 12 CY paragraff 3.2)*. Os yw'r diffynnydd yn mynychu gwrandawiad, gall y barnwr ofyn i'r diffynnydd hysbysu'r llys o'i d(d)yddiad geni yn y gwrandawiad.

C. Os yw'r diffynnydd yn addef yr hawliad mae'n ofynnol iddo/iddi anfon rhybudd addefiad yn uniongyrchol i'r hawlydd. Sut felly fydd y llys yn sicrhau'r wybodaeth?
A. Mae'n ofynnol i'r hawlydd gynnwys dyddiad geni'r diffynnydd ar y ffurflen gais ar gyfer dyfarniad.

C. Beth am Ddeddf Gwarchod Data?
A. Nid oes dim i'ch atal rhag cyflwyno gwybodaeth bersonol Diffynnydd i'r llys ar gyfer gwneud hawliad neu er mwyn cydymffurfio â rheolau'r llys. Bu ymgynghoriad â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar hyn ac mae'n fodlon.

C. Ble gaf i wybodaeth bellach am y newidiadau yn y rheolau hyn?
A. Cysylltwch â'r llys yn gyntaf ac os bydd raid caiff eich ymholiad ei anfon ymlaen i bencadlys GLIEM.